# Bwrdd Diogelu Gwent

# Adroddiad Blynyddol

# 2025 – 2026

**Tabl Cynnwys**


1. CYFLWYNIAD .......... 3
2. RHESTR O AELODAU BWRDD DIOGELU GWENT .......... 5
   - Aelodau .......... 5
3. SUT MAE'R BWRDD YN CYFLAWNI EI DDYLETSWYDDAU STATUDOL A'I FLAENORIAETHAU STRATEGOL .......... 7
   - Strwythur Strategol Bwrdd Diogelu Gwent .......... 8
4. SUT RYDYM WEDI RHOI EIN CYNLLUN BLYNYDDOL AR WAITH A CHYFLAWNI EIN CANLYNIADAU .......... 9
   - Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 1 – Amddiffyn plant ac oedolion yn well rhag esgeulustod a niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol. .......... 9

   Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 2: Amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamfanteisio yn well ... Error! Bookmark not defined.
   - Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 3 – Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol .......... 11
5. CYFLAWNIADAU'R BWRDD DIOGELU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF .......... 14
6. Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD DIOGELU AMLASIANTAETHOL CENEDLAETHOL – CWESTIYNAU'R PUM MAES .... 16
7. Y CYRFF RYDYM WEDI GWEITHIO GYDA NHW I DDIOGELU POBL YNG NGWENT .......... 23
8. CYFRANIADAU AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU .......... 24
9. Y DEFNYDD A WNEIR O ADNODDAU .......... 26
10. THEMÂU DIOGELU A NODWYD .......... 27
11. CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BWRDD DIOGELU .......... 29
12. GWYBODAETH, DYSGU A HYFFORDDIANT .......... 31
   - Gwybodaeth .......... 31
   - Dysgu .......... 31
   - Hyfforddiant .......... 32
13. GWEITHGAREDDAU ERAILL Y BWRDD .......... 35

# 1. CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Gwent gynllun strategol tair blynedd, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023/24 a 2025/26. Mae'n cynnwys gwaith Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) a Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB). Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn Blwyddyn Tri (2025/2026), sef blwyddyn olaf y Cynllun Strategol hwn, ac mae'n parhau i fod yn ffordd bwysig o ddwyn Bwrdd Diogelu Gwent i gyfrif yn gyhoeddus am adolygu ei effeithiolrwydd.

Lluniwyd ein cynllun strategol gyda chefndir arwyddocaol yr argyfwng costau byw cynyddol a'i heriau sylweddol i ddinasyddion, ymarferwyr, darparwyr gwasanaethau a chymunedau. Mae'r effaith a'r goblygiadau cysylltiedig mewn perthynas â diogelu yn dal i gael eu gwireddu'n llawn o ran tlodi gynyddol, esgeulustod, iechyd meddwl a heriau difrifol i wasanaethau ym mhob sector. Yn wyneb hyn, mae partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i gydweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau diogelu hanfodol yn darparu cymorth i blant ac oedolion ac yn eu hamddiffyn.

Wrth iddo gael ei baratoi, cynigiwyd cyfle i bob asiantaeth sy'n aelod o'r Bwrdd lywio'r adroddiad blynyddol hwn. At hynny, mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan ddefnyddio gwybodaeth arferol a gafwyd gan y Bwrdd, ei is-grwpiau a'i aelodau, rhanddeiliaid ehangach, ac ymarferwyr.

Bydd cynnwys yr adroddiad yn cwmpasu pob un o'r pedair swyddogaeth ar ddeg mewn perthynas â rhoi amcanion Byrddau Diogelu fel y'u nodir yn Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru, Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015. Nodir diben yr adroddiad hwn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chanllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1:

*Mae diben y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol yn ddeublyg; byddant yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau atebolrwydd ac yn adnoddau gwerthuso defnyddiol. Yn y cyd-destun hwn, mae yna dair elfen i atebolrwydd, sef:-*

- *Atebolrwydd i'r cyhoedd;*
- *Atebolrwydd i'r asiantaethau statudol y mae'r partneriaid Bwrdd Diogelu yn perthyn iddynt; ac*
- *Atebolrwydd i'r cyrff arolygu.*

Ar gyfer y cyfnod hwn, gwnaethom weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth strategol gyffredinol ar y cyd, sy'n seiliedig ar dair blaenoriaeth strategol ar y cyd fel a ganlyn:

**Un Weledigaeth Gyffredinol ar y Cyd:**

Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu.

**Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:**

1. Amddiffyn plant ac oedolion yn well rhag esgeulustod a niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.
2. Amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gam-fanteisio yn well.
3. Gwella a chynnal effeithiolrwydd trefniadau diogelu rhanbarthol.

Yn y cyd-destun hwnnw, bydd yr adroddiad hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GwASB) dros y flwyddyn ddiwethaf, gan

roi crynodeb o weithgarwch y grwpiau, ffrydiau gwaith, yn ogystal â'r hyn a ddysgwyd sy'n cefnogi fframwaith diogelu strategol y rhanbarth.  Byddwn hefyd yn nodi lle mae pryderon diogelu cynyddol wedi'u nodi i ganolbwyntio mwy arnynt yn ystod y cyfnod nesaf, er mwyn sicrhau lles a diogelwch dinasyddion.





**Gareth Jenkins**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant – CBS Caerffili**
**Cadeirydd SEWSCB**

**Jane Rodgers**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – CBS Sir Fynwy**
**Cadeirydd GwASB**

# 2. RHESTR O AELODAU BWRDD DIOGELU GWENT

- **Aelodau**

Nodir isod aelodau pob Bwrdd:

**BWRDD DIOGELU PLANT DE-DDWYRAIN CYMRU**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant** | CBS Caerffili |
| Meddyg Pediatrig Penodol | BIPAB |
| **Pennaeth Diogelu** | BIPAB |
| **Meddyg Ymgynghorol Arweiniol** | BIPAB (Tîm Iechyd y Cyhoedd) |
| **Cyfarwyddwr Cynorthwyol** | Barnardo's |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | CBS Blaenau Gwent |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | CBS Blaenau Gwent. |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg** | CBS Blaenau Gwent. |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | Tai Cymunedol Bron Afon |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerffili a Blaenau Gwent sy'n cynrychioli Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Gwent |
| **Cyfarwyddwr Addysg / cynrychiolydd** | CBS Caerffili |
| **Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol** | CBS Caerffili |
| **Rheolwr Gwasanaethau Diogelu** | CBS Caerffili |
| **Prif Swyddog Gweithredol** | GAVO |
| **Pennaeth Gweithrediadau** | Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent |
| **Pennaeth Uned Diogelu'r Cyhoedd** | Heddlu Gwent |
| **Pennaeth Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Rheolwr Gwasanaethau Diogelu** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Rheolwr Tai a Chymunedau** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Prif Swyddog Addysg** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Aelod o'r NISB** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) |
| **Gwasanaethau Plant, Rheolwr Gwasanaethau** | Cyngor Sir Casnewydd |
| **Prif Swyddog Addysg** | Cyngor Sir Casnewydd |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | Cyngor Sir Casnewydd |
| **Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| **Gweithiwr Diogelu Proffesiynol** | Y Gwasanaethau Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | Uned Busnes Diogelu Rhanbarthol |
| **Rheolwr Grŵp** | CBS Torfaen |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | CBS Torfaen |
| **Pennaeth Adnoddau a Chynllunio, Addysg** | CBS Torfaen |
| **Uwch-swyddog Gweithredol** | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen |
| **Ymgynghorydd Rhanbarthol** | Tîm Rhanbarthol VAWDASV |
| **Pennaeth Diogelu** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

**BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd / Prif Swyddog, yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Is-gadeirydd / Pennaeth Diogelu** | BIPAB |
| **Meddyg Ymgynghorol Arweiniol** | BIPAB (Tîm Iechyd y Cyhoedd) |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | CBS Blaenau Gwent |
| **Pennaeth Gwasanaethau Plant** | CBS Blaenau Gwent. |
| **Rheolwr Gwasanaethau Diogelu** | CBS Caerffili |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion** | CBS Caerffili |
| **Prif Swyddog Gweithredol** | GAVO |
| **Pennaeth Gweithrediadau** | Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent |
| **Pennaeth Uned Diogelu'r Cyhoedd** | Heddlu Gwent |
| **Arweinydd Diogelu** | CEF Brynbuga |
| **Pennaeth Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| **Rheolwr Gwasanaethau Diogelu** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Pennaeth Tai** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Aelod o'r NISB** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | Cyngor Sir Casnewydd |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | Cyngor Sir Casnewydd |
| **Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu** | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| **Gweithiwr Diogelu Proffesiynol** | Y Gwasanaethau Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Rheolwr Gwasanaethau** | Uned Busnes Diogelu Rhanbarthol |
| **Swyddog Diogelu** | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| **Rheolwr Grŵp** | CBS Torfaen |
| **Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** | CBS Torfaen |
| **Ymgynghorydd Rhanbarthol** | Tîm Rhanbarthol VAWDASV |
| **Pennaeth Diogelu** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

# 3. SUT MAE'R BWRDD YN CYFLAWNI EI DDYLETSWYDDAU STATUDOL A'I FLAENORIAETHAU STRATEGOL

Wrth i ni adolygu'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ystod blwyddyn olaf ein cynllun strategol tair blynedd, bydd yr adroddiad hwn yn ystyried blaenoriaethau strategol ar y cyd y Bwrdd a'r meysydd ffocws cysylltiedig, a restrir isod yn Adran 4. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw gyflawniadau a bylchau yn erbyn meysydd ffocws â blaenoriaeth y Bwrdd, yn ogystal â'i 14 o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau craidd[1] Byrddau Diogelu a restrir yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg'. Bydd Adran 4 yn nodi pa waith sydd wedi'i wneud yn erbyn pob maes ffocws â blaenoriaeth strategol a'r hyn a gyflawnwyd neu y bwriedir ei gario drosodd i'r cyfnod nesaf. Fel cyflwyniad i ddiagram y Bwrdd isod ac Adran 4 ei hun, mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r Bwrdd yn gwneud y mwyaf o'i strwythur i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i flaenoriaethau strategol.


Gan gyfeirio at y diagram isod, mae'r strwythur yn galluogi'r Bwrdd Diogelu i ddatganoli dyletswyddau statudol penodol i is-grwpiau penodedig o'r Bwrdd. Er enghraifft, y Grŵp Adolygu Achosion sydd, fel is-grŵp uwch, yn cefnogi'r Bwrdd drwy gyflawni'r swyddogaeth statudol i ystyried pob atgyfeiriad ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod yr holl adolygiadau'n cael adnoddau priodol a bod cynlluniau gweithredu strategol a gweithredol yn cael eu cydgysylltu a'u rheoli'n effeithiol. Enghraifft arall yw'r Grŵp Cynllunio Busnes, sef is-grŵp uwch arall sy'n darparu cymorth i'r Bwrdd drwy oruchwylio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn cynlluniau gwaith yr is-grŵp perthnasol, ym mhob rhan o'r rhanbarth. Mae'r grŵp hwn yn hanfodol wrth hwyluso llif cyfathrebu rhydd rhwng grwpiau lleol, is-grwpiau a'r Bwrdd. Mae ein pedwar is-grŵp yn goruchwylio swyddogaethau statudol penodol y Bwrdd. Mae enghreifftiau yn cynnwys yr is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau a'r is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu, gyda phob un o'r pedwar is-grŵp yn meddu ar gylch gorchwyl a chynlluniau gwaith clir, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cynllun strategol tair blynedd. Mae ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol hefyd yn parhau i fod yn hanfodol o ran sicrhau bod gan y Bwrdd ddealltwriaeth o ardaloedd lleol ac y gall eu cyrraedd. Mae pob is-grŵp yn cyflwyno diweddariadau chwarterol i'r Bwrdd drwy'r Grŵp Cynllunio Busnes. Mae hyn yn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol craidd a blaenoriaethau strategol y Bwrdd yn cael eu goruchwylio a bod grŵp amlasiantaethol penodedig o bartneriaid diogelu allweddol yn gweithredu arnynt.

Mae ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Gweithredu yn sicrhau bod cyfeiriad clir i bob un o is-grwpiau'r Bwrdd ynghylch pwy fydd yn cyflawni beth, yn erbyn pob un o'r meysydd ffocws â blaenoriaeth strategol. Yn aml, bydd nifer o weithgareddau a gynhelir gan wahanol is-grwpiau yn erbyn pob maes ffocws â blaenoriaeth ac, ar adegau, pan fydd blaenoriaethau diogelu newydd neu gynyddol yn ymddangos, caiff y rhain eu hymgorffori yn y rhaglen waith gyffredinol. Mae cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd rhwng pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'r is-grwpiau, lle mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen amlasiantaethol yn ymdrechu i gyflawni ei ganlyniadau datganedig. Mae hyn yn parhau i fod yn llwyddiannus gan y gall grwpiau ehangach, mwy arbenigol o ymarferwyr wedyn gyfrannu at waith y Bwrdd.

---

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf

- **Strwythur Strategol Bwrdd Diogelu Gwent**



# 4. SUT RYDYM WEDI RHOI EIN CYNLLUN BLYNYDDOL AR WAITH A CHYFLAWNI EIN CANLYNIADAU

Mae tair blaenoriaeth strategol ar y cyd sy'n pennu cyfeiriad y gwaith a wneir gan Fwrdd Diogelu Gwent yn ystod ei gynllun tair blynedd. O dan y tair blaenoriaeth strategol ar y cyd hyn ceir cyfanswm o ddeg maes ffocws â blaenoriaeth y cymerir camau yn eu herbyn i gyflawni'r amcanion a'r canlyniadau. Rhestrir isod y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023 a 2026, ynghyd â'r cyflawniadau neu'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwaith parhaus.

I gael rhagor o wybodaeth am flaenoriaethau a meysydd ffocws presennol y Bwrdd, dilynwch y ddolen hon i'n Cynllun Strategol Cynllun Strategol DIOGELU GWENT 26-29 TERFYNOL CYM

- **Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 1 – Amddiffyn plant ac oedolion yn well rhag esgeulustod a niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.**

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 1.1 – Cam-drin Plant yn Rhywiol**

Mae'r Bwrdd wedi parhau â rhaglen i wella ymatebion i achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a oruchwylir gan dasglu strategol ac a gefnogir gan weithgarwch codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gwaith archwilio. Dengys data chwarterol fod cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn un o'r categorïau cofrestru isaf, sy'n adlewyrchu patrwm ehangach ledled Cymru er gwaethaf y nifer mawr o achosion o gam-drin plant yn rhywiol a gofnodir a'r tebygolrwydd bod achosion yn cael eu tangofnodi.

Mewn ymateb, mae'r Bwrdd wedi rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn, gan roi argymhellion o archwiliad amlasiantaethol rhanbarthol ar waith, gan gynnwys canllawiau newydd ar gam-drin plant yn rhywiol. Mae Gwent hefyd wedi cyflwyno system cofrestru dau gategori er mwyn sicrhau nad yw pryderon ynghylch cam-drin rhywiol yn cael eu cuddio gan drefniadau cofrestru un categori. Roedd Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' , lle roedd cam-drin rhywiol plant yn thema, yn cynnwys 27 o argymhellion ar gyfer dysgu. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol i'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod argymhellion a gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith yn y rhanbarth hwn.

Mae digwyddiadau rhanbarthol i ymarferwyr wedi'u cynnal er mwyn rhannu arbenigedd a gwersi a ddysgwyd, ochr yn ochr â hyfforddiant arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn atgyfnerthu sgiliau amlasiantaethol. Bydd y rhanbarth hefyd yn gwerthuso templed Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin Plant yn Rhywiol ac mae'n bwriadu cydweithio ar sioe deithiol genedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol fis Medi nesaf.

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 1.2 – Esgeulustod**

Mae'r Bwrdd yn defnyddio dangosfwrdd data i fonitro atgyfeiriadau a chofrestriadau esgeulustod mewn Awdurdodau Lleol, gan helpu i nodi ei gyffredinolrwydd a'i barhad yng Ngwent. Canolbwyntiodd gwaith blaenorol ar becyn cymorth esgeulustod rhanbarthol a hyfforddiant i helpu ymarferwyr i adnabod esgeulustod ac ymateb iddo.

Y flwyddyn hon, datblygwyd canllawiau amlasiantaethol newydd ar gwympiadau, sy'n tynnu sylw at y ffaith y gallai anafiadau y gellir eu hatal mewn pobl hŷn fod yn arwydd o esgeulustod a bod angen ystyried achosion o'r fath o safbwynt diogelu.

Mae hyfforddiant wedi'i ehangu drwy gwrs Esgeulustod Cymhleth cyfunol a sesiynau arbenigol ar hunanesgeulustod, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a chelcio. Dengys data fod esgeulustod yn parhau i fod yn un o'r mathau mwyaf cyffredin o gam-drin yn achos plant ac oedolion, a gyda phwysau parhaus o ran costau byw, bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth diogelu allweddol i'r rhanbarth.

#### Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 1.3 – Iechyd Meddwl

Tynnodd yr hyn a ddysgwyd o Grwpiau Ymateb Uniongyrchol ac adolygiadau ymarfer plant dros y tair blynedd diwethaf sylw at bryderon ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant a phobl ifanc. Gwnaeth cyfarfod Grŵp Ymateb Uniongyrchol a gynhaliwyd yn dilyn marwolaeth drasig oedolyn ifanc a oedd yn gadael gofal, oherwydd ei heffaith sylweddol ar y gymuned, ein hysgogi i adolygu'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ddiogelu wrth droi'n oedolyn.

Fel yr amlinellir yn Adran 12, rydym wedi comisiynu rhaglen hyfforddi ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar draws meysydd allweddol, gan gynnwys hunanesgeulustod, celcio, plant a phobl ifanc, a cham-drin domestig. Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gydag unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac yn cyfrannu at wella gwaith amlasiantaethol.

#### Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 1.4 – Cam-drin domestig sy'n cynnwys y teulu cyfan

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd VAWDASV, gan gynnal partneriaeth ranbarthol gref a rhannu cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, wedi'i ategu gan waith ar y cyd fel Rhwydwaith Diogelu Lleol a datblygu protocol. Mae trefniadau cydweithio wedi cynnwys cyflwyno Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR), wedi'u llywio gan yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau peilot i dreialu Adolygiadau Lladdiadau Domestig dros y tair blynedd diwethaf, a rhoi ystyriaeth barhaus i themâu sy'n dod i'r amlwg gyda Llywodraeth Cymru.

Mae cynllun peilot hefyd wedi'i lansio er mwyn atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhwng is-grwpiau Dysgu a Datblygu, gan symleiddio blaenoriaethau a nodi cyfleoedd i gydweithio'n agosach. Mae gweithgarwch ar y cyd wedi ymestyn i Ddiwrnod Cam-drin Pobl Hŷn y Byd ac Wythnos Diogelu Genedlaethol, gan rannu'r hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

Fel yr amlinellir yn Adran 12, mae hyfforddiant pwrpasol ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno, gan wella ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cysylltiadau rhwng diogelu, cam-drin domestig, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a chefnogi ymarfer amlasiantaethol mwy effeithiol.

### Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 2: Amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gam-fanteisio yn well

#### Maes Ffocws 2.1 – Camfanteisio

Mae partneriaid yng Ngwent yn defnyddio'r Pecyn Cymorth i Fesur Camfanteisio ar Blant fel cymorth i ymarferwyr wrth weithio ym maes cam-fanteisio, gyda chymorth canolfannau diogelu amlasiantaethol cryf sy'n galluogi ymgynghori cynnar, rhannu gwybodaeth yn effeithiol a gwneud penderfyniadau amserol. Mae pob un o'r pum Awdurdod Lleol yn parhau i gymryd rhan yng nghynllun peilot Mecanwaith

Atgyfeirio Cenedlaethol y Swyddfa Gartref, gan hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau lleol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern.

Comisiynwyd hyfforddiant arbenigol ar gamfanteisio ar blant ac oedolion (Adran 12) y flwyddyn hon, ynghyd â gwybodaeth bwysig gan y rhai sydd â phrofiadau bywyd i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gwasanaethau wedi gweithredu i ddiogelu rhag camfanteisio. Mae cyfarfodydd MACE rhanbarthol yn darparu goruchwyliaeth, yn rhannu gwybodaeth ac yn adrodd ar dueddiadau a chyflwynir adroddiadau ar y rhain i'r Bwrdd bob chwarter fel y gellir rhoi sicrwydd a chymryd camau pellach lle y bo angen. Fel argymhelliad o archwiliad, mae cyhoeddi ein Pecyn Cymorth Cam-drin Ariannol wedi ein galluogi i ddatblygu'r cymorth hwn i ymarferwyr er mwyn helpu'r rhai sy'n gweithio gyda'r math hwn o gam-drin.

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 2.2 – Diogelu wrth Droi'n Oedolyn**

Mae diogelu wrth droi'n oedolyn yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth parhaus i bobl ifanc sydd ar fin troi'n 18 oed, yn enwedig y rhai sy'n wynebu risg o gamfanteisio nad ydynt, o bosibl, yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan ffiniau traddodiadol gwasanaethau plant/oedolion.

Y flwyddyn hon, mae'r Bwrdd wedi cefnogi gwaith arloesol mewn un Awdurdod Lleol yng Ngwent i dreialu model diogelu wrth droi'n oedolyn gyda phartneriaid, gan ymestyn trothwyon oedran MACE i 25 oed ac adolygu llwybrau gwasanaeth o safbwynt y defnyddiwr i lywio model gwasanaeth i bobl ifanc yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd yn helpu i rannu'r dysgu hwn yn rhanbarthol.

Mae'r hyn a ddysgwyd o Grwpiau Ymateb Uniongyrchol hefyd wedi tynnu sylw at heriau parhaus sy'n gysylltiedig â diogelu wrth droi'n oedolyn, yn dilyn marwolaeth drasig oedolyn ifanc a oedd wedi gadael gofal. Arweiniodd hyn at adolygiad o'r terfynau oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn ymgorffori dull diogelu wrth droi'n oedolyn yn fwy effeithiol.

- **Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 3 – Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol**

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 3.1– Cyfranogiad / Llais y defnyddiwr gwasanaeth**

Mae'r Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu wedi gweithio i gynyddu cyfranogiad dinasyddion, gan sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaethau yn llywio ymarfer diogelu yng Ngwent. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ynghylch llais y plentyn a phrofiad bywyd, cymorth i ddatblygu taflenni i blant sy'n derbyn gofal, a llunio canllawiau amlasiantaethol i hyrwyddo dealltwriaeth o brofiadau bywyd.

Mae hyfforddiant diogelu yn parhau i bwysleisio ymarfer ac eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Casglodd cynllun peilot estynedig gyda phartner yn y trydydd sector adborth gan deuluoedd a oedd yn rhan o'r broses amddiffyn plant. Tynnodd hyn sylw at bwysigrwydd cynnwys rhieni mewn ffordd ystyrlon yn y broses o gynllunio gofal a chymorth, cyfathrebu cyson a thosturiol, ymarfer sy'n ystyriol o drawma a chydnabod cryfderau a chymorth emosiynol / cymorth iechyd meddwl ochr yn ochr ag ymyriadau diogelu.

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 3.2 – Gwydnwch y gweithlu: capasiti, cymhwysedd a hyder**

Yn sgil cyflwyno'r Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, cynhaliwyd adolygiad o'n darpariaeth hyfforddiant ranbarthol er mwyn sicrhau cysondeb. Mae hyn wedi cynnwys hyrwyddo camau

i fabwysiadu adnoddau e-ddysgu cenedlaethol Grŵp A ar draws asiantaethau partner ac addasu cynnwys hyfforddiant y Bwrdd yn unol â hynny.

Rydym wedi helpu partneriaid i sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu Grŵp C drwy drefniadau cyflwyno mewnol a darpariaeth a gomisiynwyd ym mhob un o'r pum Awdurdod Lleol. Gwnaethom hefyd ddatblygu Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth ar gyfer Recriwtio Diogel a Chyflogaeth Ddiogel, gyda mewnbwn gan gydweithwyr yn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er mwyn atgyfnerthu arferion recriwtio.

Mae sicrwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Drwy ein gwaith hunanasesu y flwyddyn hon, gofynnwyd i bartneriaid roi sicrwydd ynghylch goruchwyliaeth a llesiant staff, a chafodd cryfderau cyffredin a themâu gwella eu coladu o'r ymatebion a'u rhannu fel rhan o weithdy Diwrnod Datblygu'r Bwrdd. Mae'r is-grŵp Sicrhau Ansawdd wedi dechrau casglu data rhanbarthol er mwyn deall yn well sut mae honiadau diogelu yn cael eu rheoli (Adran 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru) ledled y rhanbarth. Ochr yn ochr â diwygiadau i Adran 5 sydd ar fin cael eu cyhoeddi ac argymhellion o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder', bydd tasglu yn cael ei sefydlu er mwyn adolygu ac atgyfnerthu dull gweithredu cyson a chymesur ledled Gwent.

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 3.3 – Tlodi**

Ar ddechrau ein cynllun tair blynedd, gwnaethom gynnal digwyddiadau Wythnos Diogelu Genedlaethol ar thema tlodi, gan godi ymwybyddiaeth o gostau byw, niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, a materion iechyd a llesiant ehangach. Gwnaethom hefyd gomisiynu hyfforddiant arbenigol ar Ymwybyddiaeth o Dlodi Plant drwy Plant yng Nghymru.

Gan weithio gyda'n Bwrdd Cynllunio Ardal a'n Bwrdd VAWDASV, gwnaethom archwilio sut mae'r tri Bwrdd yn cefnogi'r un unigolion ag anghenion lluosog ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys tlodi, iechyd meddwl, tai, camddefnyddio sylweddau a VAWDASV. Gwnaethom roi argymhellion o'n harchwiliad rhanbarthol o Gam-drin Ariannol ar waith, gan adolygu 30 o achosion mewn pum Awdurdod Lleol. Roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol, ac roedd llais y dioddefwr yn cael ei gynrychioli'n dda. Tynnodd thema allweddol sylw at gymhlethdod achosion sy'n cynnwys aelodau o'r teulu, lle gall dioddefwyr fod yn amharod i geisio cymorth. Mae partneriaid, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Age Cymru, yn nodi bod nifer yr achosion o gam-drin ariannol wedi cynyddu, a allai fod yn gysylltiedig â phwysau economaidd. Mewn ymateb, gwnaethom ddatblygu Pecyn Cymorth Cam-drin Ariannol er mwyn helpu ymarferwyr, ochr yn ochr â gweithgarwch Heddlu Gwent i godi ymwybyddiaeth o seiberdroseddu a sgamiau ariannol drwy Rwydweithiau Diogelu Lleol.

Mae ymchwil, gan gynnwys ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree, yn nodi mai tlodi yw un o'r prif ffactorau ysgogi ar gyfer digartrefedd. Yn lleol, mae canfyddiadau cynnar Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol a fu'n adolygu marwolaethau yn y gymuned ddigartref yn dangos cysylltiadau tebyg.

**Maes Ffocws ar gyfer Diogelu 3.4 – Canlyniadau Perfformiad**

Mae'r Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o brosesau sicrwydd arferol ac ymatebol i fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu, gan gynnwys ffurflenni data, archwiliadau, PRUDiCS, adolygiadau diogelu unedig sengl a fforymau amlasiantaethol. Rydym yn craffu ar ddata chwarterol gan bob un o'r pum Awdurdod Lleol er mwyn nodi tueddiadau a llywio camau gweithredu, ochr yn ochr â chyfraniadau at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaethol Cenedlaethol.

Tynnodd hunanasesiad amlasiantaethol sylw at gryfderau partneriaid ym meysydd llywodraethu, arweinyddiaeth, gweithio mewn partneriaeth a pholisïau a hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'i gilydd, gyda ffocws cynyddol ar ddiogelu sy'n ystyriol o drawma a diogelu digidol. Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys cysondeb wrth rannu gwersi a ddysgwyd, sicrhau ansawdd data, cydymffurfio â hyfforddiant, cyfleu polisïau, canllawiau digidol/deallusrwydd artiffisial a chryfhau llais grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig plant.

Er bod y trefniadau hyn yn rhoi sicrwydd, bydd gwaith pellach yn parhau mewn perthynas â sicrwydd, er mwyn atgyfnerthu fframwaith perfformiad ac ansawdd amlasiantaethol rhanbarthol cyson.

# 5. CYFLAWNIADAU'R BWRDD DIOGELU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF

Dyma rai enghreifftiau o gyflawniadau Bwrdd Diogelu Gwent ar gyfer 2025/2026 sy'n tynnu sylw at ein straeon 'newyddion da' ac yn parhau i ddangos ehangder ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf:

**1.** Rhoddodd Diwrnod Datblygu Bwrdd Diogelu Gwent gyfle i fyfyrio ar ein **straeon llwyddiant**. Caiff rhai enghreifftiau o themâu sy'n dod i'r amlwg a restrir isod eu defnyddio i lywio gwaith yn y dyfodol:

- Mae'r cyd-destun teuluol yn hollbwysig
- Mae teilwra'n gweithio'n well na safoni
- Mae cydweithio yn atal bylchau

**2**. Atgyfnerthodd ein **his-grŵp Sicrhau Ansawdd** fframwaith diogelu cadarn sy'n cael ei lywio gan ddata, gan ddarparu dadansoddiadau aml-chwarter a blynyddol, a chyflwynodd system adrodd fesul 100,000 o'r boblogaeth er mwyn galluogi cymariaethau cliriach rhwng Awdurdodau Lleol.

**3.** Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i roi **Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl** ar waith ledled y rhanbarth. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r adolygiad gweithredu ar ôl blwyddyn er mwyn parhau i wella'r broses hon i'w gwneud yn llai beichus i deuluoedd a chynhyrchu dysgu mwy amserol i ymarferwyr a sefydliadau.

**4.** Yn ystod 2025/2026, gwnaethom fabwysiadu **dull cydgysylltiedig o ymateb** i'r argymhellion yn Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, **'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'**, drwy wneud y canlynol:

- sefydlu tasglu strategol
- datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol
- integreiddio yn ein hadnodd hunanasesu
- integreiddio yn ein Diwrnod Datblygu
- llywio ein cynllun strategol 3 blynedd newydd
- ysgogi adolygiad o aelodau'r Bwrdd
- sefydlu tasglu penodedig ar gyfer rheoli honiadau o dan Adran 5

**5.** Fel rhan o'r **Wythnos Diogelu Genedlaethol**, gwnaethom gydweithio â phobl â phrofiad bywyd, arbenigwyr academaidd a phartneriaid eraill i gynnal digwyddiadau amlasiantaethol rhithwir, o dan y thema 'Cysylltu'r Dotiau'. Cododd hyn ymwybyddiaeth o ddiogelu wrth droi'n oedolyn, camfanteisio, cogio, oedolyneiddio ('adultification') a gwybodaeth a gafwyd o brofiadau a sefyllfaoedd go iawn. Gwnaethom gyrraedd bron 400 o ymarferwyr, a chafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddysgu a myfyrio ar ymarfer.

**6.** Rydym yn parhau i gyflawni busnes craidd ar ran y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys chwarae rhan weithredol, gydgysylltiedig yn y broses o ymgynghori ar unrhyw fentrau neu weithdrefnau newydd, eu datblygu, eu mabwysiadu neu eu rhoi ar waith. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ein mewnbwn rhanbarthol cryf i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r **Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol ym maes Diogelu**. Y flwyddyn hon, gwnaethom gomisiynu cyrff allanol i ddarparu hyfforddiant diogelu Grŵp C i holl aelodau cymwys gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio ein pecyn hyfforddiant diogelu amlasiantaethol ansawdd uchel ein hunain.

**7.** Mae cyfarfodydd ein **Rhwydweithiau Diogelu Lleol**, a gynhelir ar-lein, a'n digwyddiadau fforwm i ymarferwyr, a gynhelir bob chwe mis, yn parhau i fod yn boblogaidd. Mae'r digwyddiadau hyn yn hanfodol i waith y Bwrdd Diogelu strategol gan eu bod yn sicrhau bod cysylltiad lleol gyda'n hymarferwyr a'n darparwyr gwasanaethau. Rydym yn ymfalchïo mewn gwrando ar ein partneriaid yn y Rhwydweithiau Diogelu Lleol, gan gefnogi gweithlu myfyriol a gwydn er mwyn sicrhau bod y meysydd pwnc yn fwyaf perthnasol i'r ardal leol.

**8.** Rydym wedi cynnal grŵp cyflawni hyfyw i gynnig hyfforddiant 'mewnol' y flwyddyn hon ac rydym yn parhau i gomisiynu hyfforddiant arbenigol. Rydym wedi darparu **mwy na 100 o sesiynau hyfforddi** ar draws **llawer o feysydd diogelu**, ar gyfer **bron i 2,000 o ymarferwyr**.Mae'r sesiynau hyn yn ymdrin â phynciau diogelu, megis camfanteisio, esgeulustod, galluedd meddyliol, cam-drin plant yn rhywiol a cham-drin domestig. (Gweler Adran 12)

**9.** Mae ein **Grwpiau Ymateb Uniongyrchol** yn ymgynnull pan fu digwyddiad critigol yn cynnwys plentyn neu berson ifanc ac mae angen ymateb amlasiantaethol i reoli effaith ar y gymuned. Y flwyddyn hon, gwnaethom gefnogi pum Grŵp Ymateb Uniongyrchol mewn pedair ardal Awdurdod Lleol a gwnaethom ddiwygio'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn cymhwyso dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ddiogelu wrth droi'n oedolyn ar gyfer unrhyw un hyd at 25 oed.

10. Gwnaethom lansio **arolwg cyhoeddus er mwyn deall profiadau pobl o ddiogelu yn well**. Gwnaethom ofyn i'r cyhoedd nodi unrhyw rwystrau canfyddedig i roi gwybod am bryderon diogelu. Gan adeiladu ar y wybodaeth hon, mae ein his-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn adolygu hygyrchedd gwybodaeth am ddiogelu, gan gynnwys sut i roi gwybod am bryderon.

# 6. Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD DIOGELU AMLASIANTAETHOL CENEDLAETHOL – CWESTIYNAU'R PUM MAES

Dros gyfnod y cynllun strategol tair blynedd hwn, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cydweithio'n agos â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydliadau partner i ddatblygu fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaethol cenedlaethol. Nod y fframwaith hwn yw rhoi darlun cydlynol a chynhwysfawr o effeithiolrwydd trefniadau diogelu ledled Cymru. Yn ystod cam y cynllun peilot cenedlaethol, a oedd yn cynnwys gweithdai rhanbarthol gydag ymchwilwyr o Brifysgol Fetropolitan Manceinion ac arweinwyr perfformiad Awdurdodau Lleol, pwysleisiodd partneriaid yn gyson bwysigrwydd defnyddio metrigau ystyrlon sydd eisoes yn bodoli lle bynnag y bo modd i leihau'r galw ychwanegol am adnoddau. Rydym yn croesawu'r cyfle i barhau i fireinio ac ailbrofi'r fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaethol cynhwysfawr hwn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu cyfraniad cytbwys a chynhwysol gan holl bartneriaid y bwrdd diogelu. Fodd bynnag, mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod yr heriau sydd i ddod i lawer o bartneriaid gofal cymdeithasol wrth i'r system cofnodi data bresennol gael ei chau ac wrth i ddefnyddwyr gael eu symud i dechnoleg newydd o fewn amserlenni llym.

O fewn y fframwaith, mae pum maes sy'n cynnwys nifer o gwestiynau ar gyfer byrddau diogelu rhanbarthol. Ymdriniwyd â rhai o'r cwestiynau hyn ym mhrif gorff yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, er hwylustod, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi nodi isod sut y gall prosesau, gweithgareddau neu feysydd gwaith presennol geisio ateb y cwestiynau hyn:

**1. Y Broses Ddiogelu**

- Sut mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau yn effeithiol wrth **nodi** pryderon dioglu ac **ymateb** i ddynt?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

Mae Bwrdd Diogelu Gwent a'i is-grwpiau yn ystyried gwybodaeth ddiogelu o amrywiaeth o ffynonellau yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau diogelu yn y rhanbarth. Mae ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd yn cael adroddiadau chwarterol gan Awdurdodau Lleol partner ar brosesau ac ymatebion diogelu, ledled Gwent. Yna, eir ati i graffu ar dueddiadau, anghysondebau a chyd-destun cyn iddynt gael eu rhannu â'r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- Mae'r Bwrdd yn ystyried data sy'n adlewyrchu'r daith drwy'r broses amddiffyn plant bob chwarter. Mae hyn yn cynnwys cyfran y Cyfarfodydd Strategaeth sy'n symud ymlaen i ymholiadau Adran 47 yn y pum Awdurdod Lleol a chyfraddau troi ymholiadau Adran 47 yn Gynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol. Mae cyfraddau yn newid o chwarter i chwarter mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chymhlethdod yr achosion sy'n cael eu hasesu. Dengys hyn fod timau yn ystyried y llwybrau mwyaf addas ar gyfer diogelu plant, boed hynny drwy Gynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol neu opsiynau cymorth amgen. Mae'r darlun rhanbarthol yn cefnogi myfyrdod parhaus ar gysondeb ond mae hefyd yn tynnu sylw at y ffordd y mae ymatebion yn cael eu teilwra at amgylchiadau unigryw plant a theuluoedd. Lle y nodwyd gwahaniaethau bach rhwng chwarteri, gwnaeth y trafodaethau cyd-destunol alluogi'r Bwrdd i ddeall y rhesymau dros hyn, er enghraifft,

gellir priodoli hyn i'r ffaith bod gweithgarwch diogelu yn mynd rhagddo yn ystod ymholiadau, gan leihau'r angen am gynhadledd.

- Yn ystod y flwyddyn, dangosodd cofrestriadau amddiffyn plant mai esgeulustod yw'r categori mwyaf cyffredin ledled y rhanbarth o hyd, ac yna cam-drin emosiynol fel yr ail bryder mwyaf cyffredin. Mae categorïau eraill fel cam-drin corfforol a rhywiol yn ymddangos ar lefelau llawer is, gyda dim ond cynnydd achlysurol yn nifer yr achosion yn cael ei gofnodi, sy'n gysylltiedig â grwpiau penodol o frodyr a chwiorydd. Er yr ymddengys fod y galw cyffredinol yn cynyddu, mae patrymau yn amrywio rhwng ardaloedd, gyda rhai'n dangos lefelau sefydlog ac eraill yn dangos mwy o anwadalrwydd. Mae'r duedd hon yn awgrymu bod y system o dan bwysau cynyddol ac yn tynnu sylw at yr angen parhaus i ymyrryd yn gynnar a darparu cymorth wedi'i dargedu, yn enwedig mewn ymateb i esgeulustod a niwed emosiynol.

- Roedd tueddiadau o ran data Gwasanaethau Oedolion yn awgrymu bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghymhlethdod achosion, eu hyd a'u cysylltiad cyfreithiol, yn enwedig mewn perthynas ag achosion o hunanesgeulustod ac achosion a wrandewir yn y Llys Gwarchod. Pwysleisiodd partneriaid iechyd fod systemau data presennol yn cofnodi nifer yr achosion ond nid eu dwyster, eu hyd na'u cymhlethdod, gan gyfyngu ar ddealltwriaeth o'r pwysau sydd ar wasanaethau a pha mor llwyddiannus ydynt.

- Mae pob awdurdod lleol yn parhau i brofi gweithgarwch cysylltu ac atgyfeirio sylweddol ar gyfer plant, sy'n dangos lefel uchel o wyliadwriaeth ymhlith aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ledled y rhanbarth. Mae amrywiadau yn nifer yr achosion Dyletswydd i Adrodd a chyfraddau Dim Camau Pellach yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn demograffeg leol, llwybrau at gymorth cynnar, a lefelau ymgysylltiad partneriaid. Dengys y patrymau hyn fod diogelu drysau ffrynt yn rheoli amrywiaeth eang o wybodaeth, gyda chanlyniadau Dim Camau Pellach yn cynrychioli gwaith blaenoriaethu pwysig sy'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael eu cyfeirio at y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae'r darlun rhanbarthol cyfunol yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir ynghylch ansawdd prosesau atgyfeirio a llwybrau ymyrraeth gynnar.

- Y flwyddyn hon, mae ein His-grŵp Sicrhau Ansawdd wedi dechrau casglu data sy'n ymwneud ag Adran 5 (honiadau diogelu). Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd i ddechrau deall patrymau cofnodi, dilyniant a chanlyniadau mewn perthynas â phrosesau Adran 5 yn y pum awdurdod lleol. O ganlyniad i drafodaethau cyd-destunol â phartneriaid, rydym yn bwriadu sefydlu tasglu penodedig i fapio'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, adolygu amrywiadau neu anghysondebau mewn ymarfer a phrosesau a cheisio cytuno ar ddull rhanbarthol clir, cymesur a chyson o ymdrin â threfniadau Adran 5, yng Ngwent.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r Bwrdd yn monitro data diogelu a phatrymau'r data hynny, yn gwneud cymariaethau dros amser, yn myfyrio rhywfaint ar brosesau diogelu yn y rhanbarth ac yn galluogi ymateb amlasiantaethol i fylchau neu themâu sy'n dod i'r amlwg.

**2. Gweithgarwch a Data Amlasiantaethol**

- Sut mae'r Bwrdd yn sicrhau ei hun bod **protocolau presennol rhwng asiantaethau yn gweithio'n effeithiol**, pan nodir bod unigolion mewn perygl o niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael eu casglu am hyn, sut y cant eu rhannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

Un enghraifft o weithgarwch a data amlasiantaethol a rennir yn rheolaidd â'r Bwrdd yw diweddariadau chwarterol rhanbarthol ynghylch Camfanteisio ar Blant Amlasiantaethol (MACE). Mae adroddiadau MACE yn galluogi'r Bwrdd i nodi neu olrhain tueddiadau o ran nifer y plant sy'n cael eu cefnogi yn ogystal ag unrhyw gyd-destun pwysig, themâu sy'n dod i'r amlwg a chynlluniau gwella. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i fonitro nifer y plant sy'n wynebu risg uchel o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blant ac sy'n cael eu cefnogi fel rhan o'r garfan hon. Mae unrhyw newidiadau mewn tueddiadau yn cael eu hategu gan gyd-destun a ddarperir gan arweinwyr yr heddlu ynghyd â disgrifiad llawn o'r camau sy'n cael eu cymryd gan bob partner er mwyn ymateb i hyn. Yna, eir ati i graffu ar dueddiadau, anghysondebau a chyd-destun cyn iddynt gael eu rhannu â'r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- Mae'r galw mawr am wasanaethau a chymhlethdod achosion o gam-fanteisio yn parhau, gan gynnwys risgiau newydd sy'n gysylltiedig â delweddau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial mewn achosion o grŵmio a charfanau sy'n peri pryder mewn rhai ardaloedd. Mae adroddiadau'n tynnu sylw at weithrediadau parhaus yr heddlu sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio sy'n ymwneud â chyffuriau ac effeithiau lleoliadau y tu allan i'r sir o ran achosion lle mae plant yn mynd ar goll. Mae arferion da yn cynnwys cyfarfodydd a sesiynau dadfriffio Plant Coll amlasiantaethol, gyda chynlluniau i gynyddu cyfranogiad yr heddlu mewn cyfarfodydd rheoli risg er mwyn cefnogi lleoliadau gofal.

- Mae adroddiadau MACE yn parhau i dynnu sylw at ddiffyg cysondeb wrth gymhwyso dull diogelu wrth droi'n oedolyn, yn enwedig lle mae risgiau o gam-fanteisio yn parhau i ddiwedd llencyndod. Wrth iddynt droi'n 18 oed, maent yn gadael y garfan ac mae'n annhebygol y byddant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau diogelu oedolion. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud mewn un Awdurdod Lleol yn profi dull diogelu wrth droi'n oedolyn yn y cyfnod nesaf, y mae rhanbarth Gwent yn bwriadu dysgu ohono a'i gefnogi.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r Bwrdd yn sicrhau ei hun bod trefniadau diogelu amlasiantaethol presennol yn gweithio'n effeithiol neu fod angen eu gwella. At hynny, y flwyddyn hon gwnaethom waith hunanasesu amlasiantaethol, gan ddefnyddio'r **Matrics Aeddfedrwydd Diogelu**, er mwyn gofyn i bartneriaid adolygu a gwerthuso eu trefniadau diogelu eu hunain. Tynnodd hyn sylw at gryfderau ym meysydd llywodraethu, arweinyddiaeth diogelu, ymgysylltu rhanbarthol, hyfforddiant hygyrch sy'n cyd-fynd â safonau cenedlaethol, a gwaith amlasiantaethol effeithiol. Nododd partneriaid hefyd welliannau sydd eu hangen ym meysydd monitro data, cydymffurfiaeth â hyfforddiant a mapio rolau, cyfleu polisïau yn gyson, canllawiau ar dechnoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial a sicrhau bod gan grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig plant, lais cryfach ym maes diogelu.

Dengys yr enghreifftiau ychwanegol isod sut mae'r Bwrdd yn ymateb i bryderon nad yw protocolau presennol rhwng asiantaethau yn gweithio mor effeithiol ag y gallent:

- Gwnaeth cyfarfod Grŵp Ymateb Uniongyrchol, a gynhaliwyd yn dilyn marwolaeth drasig oedolyn ifanc a oedd wedi gadael gofal, oherwydd ei heffaith sylweddol ar y gymuned, ein hysgogi i adolygu'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ddiogelu wrth droi'n oedolyn. Bellach mae gennym **brotocol diwygiedig ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol** ar gyfer unrhyw un hyd at 25 oed.

- Gwnaeth yr hyn y gwnaethom ei ddysgu o gyfarfodydd ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol dynnu sylw at yr angen i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i ymarferwyr mewn perthynas â **Diogelu Plant ac Oedolion o amgylch Cŵn**.

- Yn dilyn archwiliad amlasiantaethol ar gam-drin plant yn rhywiol, datblygwyd **canllawiau rhanbarthol ar gam-drin plant yn rhywiol** gyda mewnbwn gan bartneriaid allweddol. Mae'n adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r archwiliad, yn cefnogi chwilfrydedd a barn broffesiynol, ac yn cyfeirio at adnoddau Canolfannau Cam-drin Plant yn Rhywiol, ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**3. Mannau Problemus Thematig**

- Pa **ffynonellau niwed thematig allweddol** sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol sy'n cael eu hamlygu yn nata'r Bwrdd?
- Pa **gamau** sydd wedi'u nodi i ymateb i'r dystiolaeth thematig hon?

Ym mhob un o feysydd gwaith y Bwrdd a'r is-grwpiau, rydym yn nodi mannau problemus thematig. Mae enghreifftiau o rai o'r mecanweithiau a ddefnyddiwn i nodi themâu yn cynnwys adolygiadau ymarfer, prosesau cwyno, archwiliadau, Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, ymatebion hunanasesu a data perfformiad, yn ogystal â gwrando ar yr hyn a rennir â'n rhanbarth yn genedlaethol ac ymateb iddo. At hynny, gall hyn fod ar ffurf trafodaethau anecdotaidd rhwng partneriaid o fewn is-grwpiau sy'n ein hysgogi i ystyried a yw hon yn thema ac a yw'n cael ei rhannu gan eraill, drwy gynnal archwiliadau rhanbarthol neu uwchgyfeirio i'r Bwrdd. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- **Adolygiadau ymarfer** – Un thema sydd wedi dechrau dod i'r amlwg yn rhai o'n hadolygiadau ymarfer yw oedolyneiddio plant o fewn asesiadau ac iaith broffesiynol. Mae hyn wedi ein hysgogi i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc hwn ledled Gwent, gan gomisiynu arbenigwyr pwnc i rannu gwersi a ddysgwyd ac ymchwil yn nigwyddiadau ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol a darparu cynigion hyfforddi perthnasol.

- **Grwpiau Ymateb Uniongyrchol –** Mae ein Grwpiau Ymateb Uniongyrchol yn ymgynnull pan fu digwyddiad critigol yn cynnwys plentyn ac mae angen ymateb amlasiantaethol i reoli effaith ar gymuned. Y flwyddyn hon, gwnaethom ddiwygio'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ddiogelu wrth droi'n oedolyn, fel y bydd y rhai yr effeithir arnynt yn cael budd o broses well yn ystod y cyfnod trawmatig hwn. Fe'n hysgogwyd i wneud hyn yn dilyn cyfarfod un o'r Grwpiau Ymateb Uniongyrchol a gynhaliwyd mewn ymateb i farwolaeth drasig oedolyn ifanc a oedd wedi

gadael gofal oherwydd yr effaith sylweddol ar y gymuned a achoswyd gan y farwolaeth. Mae Adrannau 4 a 10 yn amlinellu gwaith pellach mewn perthynas â thema diogelu wrth droi'n oedolyn.

- **Themâu cenedlaethol** -Mae cysylltiadau Bwrdd Diogelu Gwent â chyrff cenedlaethol yn ei alluogi i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Y flwyddyn hon, gweithredodd ar Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, *Cyfiawnder trwy ein Dewrder,* drwy greu tasglu strategol a thraciwr amlasiantaethol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Roedd adnodd hunanasesu diwygiedig yn cyd-fynd â'r argymhellion hyn, gan alluogi partneriaid i adrodd ar gydymffurfiaeth. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu tasglu ar Adran 5 (honiadau diogelu) o Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn adolygu amrywiadau mewn ymarfer ac i gytuno ar ddull gweithredu rhanbarthol cyson ledled Gwent.

- **Matrics Aeddfedrwydd Diogelu (hunasasesu)** – Mae ymatebion hunanasesu yn dangos system ddiogelu aeddfed ledled Gwent, gyda chydymffurfiaeth gref, prosesau integreiddio, a thystiolaeth o arferion da. Mae blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cynnwys mwy o gysondeb (hyfforddiant, polisïau, cofnodi), parodrwydd y gweithlu (goruchwylio, mapio rolau, sgiliau digidol), a pharatoi ar gyfer newidiadau cenedlaethol (Adran 5, Cynllun Gofodol Cymru). Mae'r broses hefyd yn helpu'r Bwrdd i nodi themâu ac olrhain cynnydd.

**4. Adborth Defnyddwyr Gwasanaethau**

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu **Rhanbarthol o ran casglu adborth Gwasanaethau defnyddwyr gwasanaethae** mewn perthynas â gweithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r data hyn yn ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut mae'r Bwrdd yn ymateb i'r dystiolaeth hon a dros ba gyfnod o amser?

Mae Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth yn un o feysydd ffocws â blaenoriaeth strategol Bwrdd Diogelu Gwent. Isod, rydym yn amlinellu rhai enghreifftiau o ble rydym wedi casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar bwnc diogelu y flwyddyn hon, neu lle rydym wedi hyrwyddo llais defnyddiwr y gwasanaeth:

- Wrth gynnal ein **hunanasesiad gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu**, nododd partneriaid fod mecanweithiau'n bodoli ar gyfer clywed llais dioddefwyr a phlant, ond bod angen gwella mecanweithiau adborth systematig gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cofnodi lleisiau plant yn gyson. Mae hyn yn rhoi cyfle i bartneriaid ddangos eu cynlluniau gwella i'r Bwrdd.

- Gwnaethom gwblhau **cynllun peilot estynedig a edrychodd ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau o ddiogelu**. Tynnodd y canfyddiadau sylw at werth cydberthnasau y gellir ymddiried ynddynt, cyfathrebu clir ac agored a chynnwys rhieni. Ar y cyfan, mae'r broses fwyaf effeithiol pan fydd ymarferwyr yn gefnogol ac yn anfeirniadol, a phan fydd rhieni'n teimlo bod ymarferwyr yn mynd ati i'w cynnwys ac ymgysylltu â nhw.

- Fel rhan o Ddiwrnod Datblygu blynyddol y Bwrdd, gwnaethom ofyn i bartneriaid gyflwyno ac **adolygu enghreifftiau o achosion lle y cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol**. Un o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o hyn oedd bod 'llais yr unigolyn' yn bwysig; ysgogwyd canlyniadau llwyddiannus pan roddwyd lle i blant ac oedolion fynegi'r hyn yr oedd ei eisiau arnynt, boed hynny drwy wasanaeth eirioli, gwarcheidwaid, neu sgyrsiau anffurfiol; ac roedd cael dweud eu dweud yn eu helpu i deimlo'n llawn cymhelliant a bod pobl yn buddsoddi ynddynt.

- Mae cyrsiau diogelu amlasiantaethol y Bwrdd oll yn hyrwyddo ac yn pwysleisio **ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, ymgysylltu a llais y defnyddiwr gwasanaeth** drwy gydol y broses ddiogelu ac maent yn cyd-fynd â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol newydd mewn perthynas â'r pwnc hwn.

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi hyrwyddo'r ffocws hwn drwy ein Fforymau i Ymarferwyr Rhwydweithiau Diogelu Lleol, gan ddefnyddio **profiadau bywyd go iawn** i wella ymwybyddiaeth a dysgu. At hynny, mae'r gwaith o ddatblygu ein canllawiau ar gam-drin ar sail anrhydedd wedi cael ei lywio'n uniongyrchol gan ddefnyddiwr gwasanaeth sydd â phrofiad bywyd perthnasol.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddeall "profiadau bywyd" unigolion, gan gynnwys ymddygiadau ac amgylchiadau, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar yr hyn a fynegir ar lafar. Mae'r dull hwn o weithredu wedi'i atgyfnerthu yn yr hyn a ddysgwyd o'n hadolygiadau ymarfer rhanbarthol ac o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, 'Cyfiawnder trwy Ein Dewrder'.

**5. Gwybodaeth am y Gweithlu**

- Beth rydym yn ei wybod am **broffil** y **gweithlu diogelu**?
- Sut mae gweithgarwch **recriwtio a chadw staff** yn effeithio ar y Gwaith o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y mae hyfforddiant amlasiantaethol yn cael ei ddarparu I'r gweithlu Diogelu (fel y'I proffiliwyd) ac i baraddau y mae'r gweithlu yn ymgymryd a'r hyfforddiant hwnnw?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael I roi sicrwydd I'r Bwrdd bod asiantaethau yn deal llesiant a chymorth y gweithlu dioglu ac yn ymateb I hynny?

Mae gwydnwch y gweithlu yn parhau i fod yn faes ffocws â blaenoriaeth allweddol i Fwrdd Diogelu Gwent, yn benodol mewn perthynas â chapasiti, cymhwysedd a hyder. Er nad yw partneriaid yn cyflwyno gwybodaeth am broffil y gweithlu i'r Bwrdd ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol, o'n trafodaethau â'r Bwrdd a'r is-grwpiau, fod recriwtio a chadw staff yn parhau i effeithio ar bob partner. Fel rhan o'r trefniadau adrodd arferol, mae'n ofynnol i is-grwpiau'r Bwrdd nodi unrhyw faterion diogelu neu wersi a ddysgwyd fel rhan o'u diweddariad i'n Grŵp Cynllunio Busnes uwch. Er enghraifft:

- **Matrics Aeddfedrwydd Diogelu (hunasasesu)** – Y flwyddyn hon, cwblhaodd partneriaid y Bwrdd hunanasesiad amlasiantaethol o'u trefniadau diogelu, gan gynnwys cymhwysedd y gweithlu. Roedd y cryfderau'n cynnwys trefniadau recriwtio mwy diogel a chadarn, gweithdrefnau sefydledig ar gyfer pryderon ynghylch ymarferwyr, hyfforddiant sy'n cyd-fynd â safonau cenedlaethol, gwybodaeth ddiogelu hygyrch, a phrosesau llesiant a chwythu'r chwiban sefydledig.

Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys dibynadwyedd data cydymffurfiaeth â hyfforddiant, ehangu cofnodi digidol mewn ysgolion, gwella mynediad at hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, a ffurfioli goruchwyliaeth diogelu lle mae'n anghyson.

- **Data perfformiad** - Nodwn fod cryn drafodaeth yn ein Grŵp Sicrhau Ansawdd ynghylch gwybodaeth am y gweithlu a'r ffordd y gallai hyn effeithio ar drefniadau diogelu ein partneriaid. Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan y gweithlu a allai fod yn effeithio ar ddyletswyddau diogelu. Yng nghyfarfodydd ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd, pan drafodir y gwahaniaethau rhwng nifer yr achosion Dyletswydd i Adrodd sy'n symud ymlaen i ymchwiliadau Adran 47 ac yna i Gynadleddau Diogelu Plant bob chwarter, mae'n ddefnyddiol deall y cyd-destun o ran newidiadau yn y gweithlu. Gellir priodoli gwahaniaethau i ddigwyddiadau hyfforddi wedi'u targedu neu yn wir i broffiliau staffio, fel gweithlu llai neu newydd gymhwyso, sy'n effeithio ar gapasiti neu lefelau hyder.

- **Honiadau diogelu am ymarferwyr** – Y flwyddyn ddiwethaf, nododd arweinwyr diogelu fod cynnydd wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud â honiadau yn erbyn ymarferwyr (Adran 5, Cynllun Gofodol Cymru). Mewn ymateb, dechreuodd yr is-grŵp Sicrhau Ansawdd gasglu data rhanbarthol i ddeall y goblygiadau i'r gweithlu yn well. Gyda fersiwn ddiwygiedig o Adran 5 (Cynllun Gofodol Cymru) ar fin cael ei chyhoeddi, gwersi a ddysgwyd o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, *Cyfiawnder trwy ein Dewrder*, ac argymhelliad ar gyfer ymarfer ymgysylltu blynyddol i'w gynnal ar y cyd gan arolygiaethau, caiff tasglu ei sefydlu er mwyn adolygu ac atgyfnerthu dull gweithredu cyson a chymesur ledled Gwent.

- **Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol** – Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn falch o gynnig hyfforddiant diogelu amlasiantaethol i'w bartneriaid (ceir manylion yn Adran 12). Yn ogystal â sicrhau bod yr hyfforddiant ategol a gynigir gan ein Bwrdd yn cyfateb i'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, rydym wedi helpu ein Hawdurdodau Lleol partner i sicrhau bod eu gweithluoedd yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol fel sy'n ofynnol yn y fframwaith, drwy gomisiynu hyfforddwyr allanol i gyflwyno ein pecyn o hyfforddiant Grŵp C.

# 7. Y CYRFF RYDYM WEDI GWEITHIO GYDA NHW I DDIOGELU POBL YNG NGWENT

Rydym yn parhau i gydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau, partneriaethau a fforymau eraill i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion hyd yma. Ymhlith y rhain mae:

- Heddlu Gwent;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent;
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent.

O'n Pum Ardal Awdurdod Lleol, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

- Addysg;
- Gwasanaethau Plant;
- Gwasanaethau Oedolion;
- Darparwyr Tai Statudol;
- Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

Mae gennym gysylltiadau gwaith cryf â phartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol eraill:

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV);
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB);
- Llywodraeth Cymru;
- Y pum bwrdd rhanbarthol diogelu plant ac oedolion eraill, yng Nghymru.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent a'i is-grwpiau yn cael cyflwyniadau a briffiau ar-lein gan amrywiaeth eang o bartneriaid, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio a sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau diogelu rhanbarthol. Ymhlith y rhain mae:

- **Thematic Review of Adult Practice Reviews, Wales 2025** – Yr Athro Michelle McManus, Prifysgol Fetropolitan Manceinion
- **The Local Safeguarding Picture Through Data Lens** – Beth Thomas, cadeirydd yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd
- **Transitional Safeguarding: An Update on Research Roadshow & Next Steps** – Finn Madell, Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyngor Dinas Casnewydd
- **Safeguarding, Education & Race:  Local Authority Responses to Recommendations** – Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd
- **Strengthening Safeguarding Governance Review** – Zarah Newman, Cynghorydd Diogelu a Rheolwr Polisi Llywodraeth Cymru, a Jan Pickles, Arweinydd Adolygu Annibynnol
- **Arolwg Cenedlaethol o Drais yn Erbyn Menywod a Thrais Rhywiol** – Johanna Robinson, Cynghorydd Cenedlaethol VAWDASV

# 8. CYFRANIADAU AELODAU'R BWRDD AC ASIANTAETHAU

Mae ein partneriaid ym Mwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ddangos eu hymrwymiad a'u hymroddiad i waith y Bwrdd drwy eu cyfranogiad cyson a gweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r is-grwpiau. Mae hyn wedi galluogi'r Byrddau i barhau i ymateb i'r heriau a wynebir gan eu hasiantaethau partner. Drwy gynnal cydberthnasau cryf â phartneriaethau strategol eraill, mae'r Bwrdd yn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn ystyriaeth â blaenoriaeth wrth weithio drwy heriau sylweddol i ddarparwyr gwasanaethau yn ein rhanbarth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau gan holl asiantaethau cyfansoddol y Bwrdd a llawer o bartneriaid eraill i gefnogi gwaith y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, sydd yn ei dro yn cael ei lywio gan ei flaenoriaethau strategol a'i gynllun gweithredu. At hynny, rydym yn parhau i ddibynnu ar asiantaethau i ddarparu unigolion i weithio gydag Uned Fusnes Diogelu Gwent ac i ddarparu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar gyfer ein grwpiau.

Cafwyd y trefniadau Cadeirio ac Is-gadeirio ar gyfer ein grwpiau drwy gydol 2025/2026 o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **SEWSCB**<br>Gwasanaethau Plant Caerffili | **GwASB**<br>Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **GRŴP ADOLYGU ACHOSION**<br>Heddlu Gwent<br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi | **GRŴP CYNLLUNIO BUSNES**<br>Tîm Diogelu Caerffili<br>Tîm Diogelu Casnewydd |
| **PROTOCOL A GWEITHDREFNAU**<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Gwasanaethau Plant Torfaen | **GRŴP SICRHAU ANSAWDD AR Y CYD**<br>Gwasanaeth Diogelu Blaenau Gwent<br>Gwasanaethau Oedolion Caerffili<br>Gwasanaethau Plant Caerffili |
| **YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU**<br>Gwasanaethau Plant Sir Fynwy | **DYSGU A DATBLYGU**<br>Cyngor Dinas Casnewydd |

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i gynnig cyfres o hyfforddiant diogelu i'w bartneriaid. Mae ein Grŵp Darparu Hyfforddiant yn defnyddio adnoddau ein partneriaid i ddatblygu, adolygu a hwyluso rhaglen hyfforddi generig ein Byrddau ar y cyd. Rydym yn parhau i ddibynnu ar yr adnoddau hyn i 'wneud mwy gyda llai' o ran faint o hyfforddiant y gallwn ei ddarparu i ymarferwyr. Mae partneriaid yn buddsoddi cryn dipyn o amser yn y gwaith o ailddatblygu ein rhaglen hyfforddi er mwyn sicrhau y gall ddarparu profiad dysgu cyfunol, cael ei chyflwyno'n rhithwir lle y bo angen a chydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i barhau i gynnig amrywiaeth o hyfforddiant diogelu, a ddarperir gan bartneriaid amlasiantaethol, i ymarferwyr traws-sector sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl, a chomisiynu hyfforddiant pwrpasol lle nodir anghenion blaenoriaethol. Mae pob un o asiantaethau partner y Bwrdd wedi ymrwymo i'r adnodd hwn, ac rydym o'r farn ei fod yn

gyfraniad mawr at fusnes y Bwrdd.   Dros y tair blynedd diwethaf, mae partneriaid wedi buddsoddi cryn dipyn o egni er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a gynigir gan y Bwrdd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol.

Rydym yn parhau i ddibynnu ar yr adnoddau a ddarperir gan asiantaethau a phartneriaid i gadeirio a darparu adolygwyr ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.  Rydym wedi bod yn ffodus i gael defnyddio staff o Heddlu Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Timau Diogelu a Gwasanaethau Plant ac Oedolion pob un o'r pum Awdurdod Lleol yn y prosesau adolygu.

Rydym yn parhau i ddibynnu'n fawr ar gymorth a chefnogaeth y Rheolwyr Gwasanaethau Diogelu o'r pum ardal Awdurdod Lleol ledled Gwent am fod pob un ohonynt yn Cadeirio cyfarfodydd eu Rhwydwaith Diogelu Lleol eu hunain ac yn hwyluso digwyddiadau eu Fforwm i Ymarferwyr y Rhwydwaith Diogelu Lleol a gynhelir bob chwe mis  Mae digwyddiadau'r Rhwydweithiau Diogelu Lleol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r Wythnos Diogelu Genedlaethol yn ardal Gwent. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i'r Bwrdd dangos yr hyn a ddysgwyd, codi ymwybyddiaeth, a cheisio barn ymarferwyr am adnoddau'r Bwrdd gan ddefnyddio arolygon ymarferwyr.

Ledled Gwent, mae'r ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-grwpiau'n gweithredu yn parhau i fod yn enghraifft wirioneddol o waith amlasiantaethol ar ei orau.  Heb ymrwymiad a chyfraniad aelodau'r Bwrdd, asiantaethau a phartneriaid, ni fyddai gwaith y Bwrdd ar ei lefel bresennol yn bosibl.

# 9. Y DEFNYDD A WNEIR O ADNODDAU

Mae'r Bwrdd yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu fel y'i nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, ‘Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg’, y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r cyllid gan asiantaethau partner y Bwrdd yn darparu adnoddau ar gyfer seilwaith rhanbarthol o staff sy'n gweithio'n agos gyda Chadeiryddion y Bwrdd, Byrddau Diogelu partner a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd, y nodir eu diben yn y canllawiau uchod, er mwyn gwneud y canlynol:

- datblygu busnes o ddydd i ddydd mewn perthynas â swyddogaethau craidd y Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a threfniadol ar gyfer gwaith is-grwpiau’r Bwrdd;
- darparu cymorth gweinyddol a threfniadol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd, hyfforddiant a datblygu staff a'r trefniadau dysgu ac adolygu, gan gynnwys Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl;
- darparu cymorth ar gyfer adolygu perfformiad y Bwrdd ac ar gyfer ei waith cynllunio ariannol tymor canolig.

Sefydliad lletya'r Uned Fusnes yw'r Partner Arweiniol hefyd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu rhaglen hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol helaeth. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau diogelu generig sy'n galluogi mynediad am ddim i ymarferwyr a gwirfoddolwyr ledled y rhanbarth. Bwriedir iddynt ategu'r hyfforddiant a ddarperir gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth ac ychwanegu gwerth ato.

Nodir isod y costau penodol ar gyfer y cymorth hwn yn ystod 2025/2026:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y costau** | **£492,273** |
| **Costau staff** | **£ 408,663** |
| **Costau rhedeg o ddydd i ddydd** | **£ 25,751** |
| **Darparu Hyfforddiant Amlasiantaethol ac Adolygiadau Ymarfer** | **£ 46,681** |
| **Ymgysylltu / Gwefannau a Chyhoeddusrwydd / Digwyddiadau proffesiynol (Gan gynnwys yr Wythnos Diogelu Genedlaethol)** | **£11,178** |

Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd, Cadeiryddion yr Is-grwpiau a'r aelodau yn rhoi cryn dipyn o'u hamser i gefnogi'r Bwrdd a'i waith. Yn aml, mae hyn yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a nodwyd a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur amrywiadwy ac amrywiol gwaith y Bwrdd yn ei gwneud hi'n anodd adrodd ar hyn yng nghyd-destun adnoddau cyfrifadwy a mesuradwy ac nid yw bob amser yn amlwg i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Mae darparu adnoddau ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, eu cydgysylltu a'u cyhoeddi, datblygu a diwygio protocolau a pholisïau rhanbarthol yn rheolaidd i ategu Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac ailddatblygu pecynnau hyfforddi amlasiantaethol yn enghreifftiau o waith byrddau diogelu sy'n gofyn am lefelau uchel o ymrwymiad, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

# 10. THEMÂU DIOGELU A NODWYD

Mae cynllun strategol tair blynedd Bwrdd Diogelu Gwent ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2026 yn mabwysiadu dull gweithredu strwythuredig, cynyddol, gan bennu tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd a ategir gan ddeg maes ffocws. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i themâu diogelu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg wrth gynnal blaenoriaethau cyson dros y cyfnod cyfan. Ar ddechrau blwyddyn olaf y cynllun strategol, rydym yn parhau i fyfyrio ar themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg ac yn sicrhau bod ein ffocws yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae **diogelu wrth droi'n oedolyn** yn parhau i fod yn thema ranbarthol bwysig, gan gydnabod nad yw risgiau'n dod i ben pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 18 oed. Mae'r Bwrdd yn gweithio tuag at fabwysiadu dull gweithredu traws-wasanaeth, mwy hyblyg er mwyn cefnogi pobl ifanc yn well wrth iddynt droi'n oedolion. Y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i gymeradwyo'r gwaith arloesol sy'n digwydd yn un o'n hardaloedd Awdurdod Lleol i brofi dull newydd o gefnogi pobl ifanc am gyfnod hirach wrth iddynt ddod yn oedolion ifanc, i'w dargyfeirio oddi wrth gamfanteisio a lleihau'r cyfleoedd iddynt ddod yn gamfanteiswyr. Gwnaeth hyn lywio Diwrnod Datblygu'r Bwrdd, gan ein galluogi i ddysgu a rhannu gwersi ledled ein rhanbarth. Y flwyddyn hon, gwnaethom greu fideo er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu wrth droi'n oedolyn a diwygio'r terfyn oedran ar gyfer Grwpiau Ymateb Uniongyrchol er mwyn mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ddiogelu wrth droi'n oedolyn ar gyfer unrhyw un hyd at 25 oed.

Mae **llais y defnyddiwr gwasanaeth** yn parhau i fod yn hanfodol, yn enwedig mewn achosion cymhleth lle gall cyfathrebu fod yn gyfyngedig. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd deall "profiadau bywyd" — gan gynnwys ymddygiadau ac amgylchiadau — yn hytrach na dibynnu ar fynegiant llafar yn unig. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hyn yn ein hadolygiadau ymarfer rhanbarthol, o'r Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru 2023 a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'. Mae gwybodaeth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn nodwedd annatod o Bum Maes Diogelu y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fel model ar gyfer adrodd ar berfformiad cenedlaethol. Y flwyddyn hon, gwnaethom godi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio profiadau bywyd defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'n Fforymau i Ymarferwyr Rhwydweithiau Diogelu Lleol. Rydym hefyd wedi sicrhau bod defnyddiwr gwasanaeth sydd â phrofiad bywyd o gam-drin ar sail anrhydedd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein canllawiau ar gam-drin ar sail anrhydedd. Y flwyddyn hon, gwnaethom gwblhau cynllun peilot estynedig a ystyriodd brofiadau defnyddwyr gwasanaethau o ddiogelu. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cydberthnasau y gellir ymddiried ynddynt, cyfathrebu clir a chynnwys rhieni, gan ddangos bod y broses yn gweithio orau pan fydd ymarferwyr yn gefnogol ac yn anfeirniadol, a pan fydd rhieni'n teimlo bod ymarferwyr yn ymgysylltu â nhw.

Un maes ffocws â blaenoriaeth craidd yw **gwydnwch y gweithlu**. Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal capasiti, cymhwysedd a hyder staff i reoli gofynion diogelu. Rhaid i sefydliadau feithrin diwylliannau cefnogol a chydweithredol er mwyn atal diffygiad a darparu gofal cyson sy'n ystyriol o drawma. Mae themâu dysgu o Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru, 'Cyfiawnder trwy Ein Dewrder' yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sydd â'r hyder i adnabod arwyddion cam-drin ac ymateb yn effeithiol. Y flwyddyn hon, gwnaethom gryfhau gallu ymarferwyr drwy barhau i ddiweddaru ein hyfforddiant amlasiantaethol er mwyn cydymffurfio â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Gwnaethom gomisiynu cyrff allanol i ddarparu hyfforddiant diogelu

Grŵp C i holl aelodau cymwys gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio ein pecyn hyfforddiant diogelu amlasiantaethol ansawdd uchel ein hunain, er mwyn atgyfnerthu cymhwysedd a hyder.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pryderon diogelu rhanbarthol yn parhau i gael eu nodi drwy amrywiaeth o blatfformau gan gynnwys trafodaethau â phartneriaid y Bwrdd, rhyngweithio â rhanddeiliaid, gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer neu Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, sy'n ein helpu i ymateb gan ddefnyddio gweithgareddau wedi'u targedu. Mae gwaith y Bwrdd yn erbyn ei flaenoriaethau strategol, ei feysydd ffocws a'i gyfrifoldebau statudol, fel y'u cyflwynir yn Adran 4, ynghyd â'r themâu diogelu mwy manwl a restrir yn yr adran hon, i gyd wedi helpu i gyfeirio ein ffocws ar gyfer y cyfnod nesaf mewn perthynas â'n blaenoriaethau strategol newydd, a restrir isod:

**Un Weledigaeth Gyffredinol ar y Cyd: Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu.**

**Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:**

**1. Amddiffyn plant ac oedolion yn well rhag esgeulustod a niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.**

- Cam-drin rhywiol a thrais rhywiol
- Esgeulustod
- Anghenion cymhleth sy'n cyd-ddigwydd

**2. Amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamfanteisio yn well.**

- Camfanteisio – Troseddol, Rhywiol, Ariannol
- Diogelu wrth droi’n oedolyn

**3. Gwella a chynnal effeithiolrwydd trefniadau diogelu rhanbarthol.**

- Profiadau bywyd
- Gwydnwch y gweithlu
- Sicrwydd

I gael rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws a nodir yng Nghynllun Strategol 2026-2029, dilynwch y ddolen hon [Cynllun Strategol DIOGELU GWENT 2026-2029 TERFYNOL CYM]

# 11. CYFRANOGIAD A CHYNNWYS DINASYDDION YNG NGWAITH Y BWRDD DIOGELU

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a goroeswyr lle bynnag y bo modd er mwyn helpu i lywio ei gyfeiriad strategol. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i greu cyfleoedd sy'n sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn llywio gwaith y Bwrdd yn gyson.

Mae'r Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn adolygu ei aelodau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddo'r arbenigedd a'r dylanwad cywir mewn fforymau presennol. At hynny, rydym yn nodi cyfleoedd i is-grwpiau eraill y Bwrdd—megis yr is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau a'r is–grŵp Sicrhau Ansawdd—gynnal gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u targedu gydag ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae rhai enghreifftiau o'n gwaith y flwyddyn hon i gynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw wedi'u cynnwys isod:

- Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad, goruchwyliodd ein his-grŵp Sicrhau Ansawdd gynllun peilot i ddeall profiad bywyd defnyddwyr gwasanaeth o'r broses ddiogelu yn well. Gwnaethom ddysgu am bwysigrwydd y gydberthynas rhwng y plentyn a'r teulu ac ymarferydd y gellir ymddiried ynddo ac am yr angen am gyfathrebu a chymorth gwell ac i gynnwys rhieni yn fwy yn y broses amddiffyn plant. Ar y cyfan, mae'r broses fwyaf effeithiol pan fydd ymarferwyr yn gefnogol ac yn anfeirniadol, a phan fydd rhieni'n teimlo bod ymarferwyr yn mynd ati i'w cynnwys ac ymgysylltu â nhw.

- Gwnaethom gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ym mhob un o'n Hawdurdodau Lleol y flwyddyn hon. Gwnaeth hyn ein galluogi i gynnal arolygon 'Diogelu a Fi' gyda'r cyhoedd, er mwyn deall eu hymwybyddiaeth a'u profiadau o wasanaethau. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall yn well ble i dargedu ein ffocws ar godi ymwybyddiaeth yn y cyfnod nesaf.

- Cynhelir digwyddiadau i ymarferwyr Rhwydweithiau Diogelu Lleol ddwywaith y flwyddyn. Maent yn gyfleoedd i'r Bwrdd ymgynghori ag ymarferwyr a chodi ymwybyddiaeth o themâu diogelu allweddol. Y flwyddyn hon, gwnaethom gydweithio â phobl sydd â phrofiad bywyd, ymhlith partneriaid eraill, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu wrth droi'n oedolyn a cham-fanteisio, gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o sefyllfaoedd a phrofiadau go iawn. Gwnaethom gyrraedd bron 400 o ymarferwyr, a chafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddysgu a myfyrio ar ymarfer.

- Mae'r gwaith o ddatblygu ein canllawiau ar gam-drin ar sail anrhydedd wedi cael ei lywio'n uniongyrchol gan ddefnyddiwr gwasanaeth sydd â phrofiad bywyd perthnasol. Roedd hyn wedi'i gwneud yn bosibl i'r Bwrdd ddod â gwybodaeth a gafwyd o brofiadau bywyd, perthnasedd ac atebolrwydd i'r broses.

- Rydym yn parhau i gynnwys teuluoedd fel mater o drefn yn ein Hadolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Mae hyn wedi sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac y gallant rannu eu profiad bywyd fel rhan o'r broses adolygu.

Rydym yn cynnal cysylltiadau effeithiol â phartneriaethau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Mae hyn yn ein helpu i ystyried y prosesau llywodraethu a'r mecanweithiau adrodd ynghyd â chynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd er mwyn ceisio symleiddio a lleihau achosion o ddyblygu.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n harweinwyr atal hunanladdiad a hunan-niweidio rhanbarthol er mwyn ymateb, mewn ffordd gydgysylltiedig, i themâu sy'n dod i'r amlwg o Grwpiau Ymateb Uniongyrchol ac adolygiadau ymarfer plant sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio.

Rydym yn cynnal cydberthynas waith agos â'n cydweithwyr yn y sector VAWDASV.  Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd Byrddau perthnasol, rhannu gwefan, cynllun peilot ar y cyd i ddod â'n his-grwpiau Dysgu a Datblygu ynghyd ac ymdrechion cydweithredol mewn perthynas â blaenoriaethau cyffredin, megis digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol a gweithdai datblygu ar y cyd. At hynny, rydym wedi cael amrywiaeth o siaradwyr gwadd o asiantaethau partner sydd wedi ymgysylltu â'r Bwrdd, naill ai ar lefel y Bwrdd neu is-grŵp neu yng nghyfarfodydd ein Rhwydweithiau Diogelu Lleol.  Mae hyn yn gwella ein hymwybyddiaeth strategol o flaenoriaethau cyfochrog ac yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer dull diogelu mwy cydweithredol er mwyn gwella canlyniadau cadarnhaol i fwy o ddinasyddion yn y rhanbarth.  Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod wrth wraidd yr holl waith y byddwn yn ei wneud yn y cyfnod nesaf.

# 12. GWYBODAETH, DYSGU A HYFFORDDIANT

- **Gwybodaeth**

Mae cyfarfod Cyfnewidfa Gwybodaeth wythnosol Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i dyfu fel dull dibynadwy o ledaenu newyddion am faes diogelu, adnoddau a hyfforddiant sydd ar gael i'n rhwydwaith partneriaeth. Mae ein his-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn goruchwylio rhaglen o waith ymgyrchu sy'n galluogi'r Bwrdd i ddatblygu a chyflwyno ei raglenni cyfathrebu ei hun neu gefnogi'r rhai a ddatblygwyd gan bartneriaethau neu sefydliadau eraill. Mae'r grŵp hwn yn bwriadu datblygu cyfres o bodlediadau â thema er mwyn gwella ein dulliau o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach ynghylch pynciau diogelu allweddol. At hynny, mae ein gwefan yn parhau i gael ei hadolygu a bydd yn cael ei gwella yn y cyfnod nesaf.

- **Dysgu**

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn sicrhau bod dysgu wrth wraidd ei fusnes. Mae ffynhonnell dysgu sylweddol yn deillio o'n hadolygiadau diogelu. Nod Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yw creu un broses adolygu sy'n ymgorffori dull gweithredu amlasiantaethol lle y bodlonir y meini prawf ar gyfer un neu fwy o'r adolygiadau canlynol:

- Adolygiad Ymarfer Oedolion (p'un a yw'n gryno neu'n estynedig);
- Adolygiad Ymarfer Plant (p'un a yw'n gryno neu'n estynedig);
- Adolygiad Lladdiad Domestig;
- Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl;
- Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol (tra'n aros am werthusiadau o gynlluniau peilot)

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi bod yn cynnal y canlynol:

- **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (yn ymwneud â marwolaethau domestig) 2**
- **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (yn ymwneud â marwolaethau plant) 2**
- **Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol 2**
- **Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig 2**
- **Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig 1**

Mae cyd-destunau'r adolygiadau rydym wedi'u dechrau neu eu cwblhau dros y tair blynedd diwethaf wedi helpu i lywio ffocws y Bwrdd ar gyfer y cyfnod tair blynedd newydd. Mae'r cyd-destunau hyn wedi cynnwys anghenion cymhleth / sy'n cyd-ddigwydd yn benodol mewn perthynas ag iechyd meddwl, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a thai. Mae diogelu wrth droi'n oedolyn hefyd wedi dod i'r amlwg fel thema mewn nifer o'n hadolygiadau, a fydd yn arwain at ddull cydgysylltiedig o rannu a gweithredu'r hyn a ddysgwyd yn y cyfnod nesaf.

Dyma rai enghreifftiau o'r themâu dysgu ehangach sy'n dod i'r amlwg:

- Oedolyneiddio plant o fewn asesiadau ac iaith broffesiynol
- Trawma fel ysgogydd ymddygiad ac angen canolog a heb ei gydnabod yn ddigonol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod bod profiadau bywyd gofalwyr yn bwysig iawn i ddeall prosesau ymgysylltu a chapasiti wrth ddiogelu unigolion.

- ➢ Risg uwch ar adegau pontio allweddol fel llencyndod i fod yn oedolyn neu gyfnodau o ddigartrefedd.
- ➢ Ansefydlogrwydd o ran tai a lleoliadau anaddas neu anniogel sy'n golygu bod unigolion yn fwy agored i niwed

- **Hyfforddiant**

Fel un o'u gofynion statudol, mae'n rhaid i Fyrddau Diogelu adolygu a dadansoddi anghenion hyfforddi ymarferwyr yn yr ardal, a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn iddynt allu monitro'r gweithgareddau hyfforddi a ddarperir, nodi'r hyfforddiant sydd ei angen a sicrhau bod asiantaethau'n ei ddarparu. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol helaeth, gyda chymysgedd priodol o gyfleoedd i ryngweithio ar-lein ac wyneb yn wyneb i wella'r profiad dysgu. Mae hyn yn galluogi mynediad am ddim at amrywiaeth o gyrsiau diogelu i ymarferwyr a gwirfoddolwyr ledled y rhanbarth. Bwriedir iddynt ategu'r hyfforddiant a ddarperir gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth ac ychwanegu gwerth ato.

Mae Grŵp Cyflawni ar y Cyd y Byrddau yn cynnwys gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol, a nodwyd gan eu hasiantaethau oherwydd eu gallu, eu gwybodaeth a'u harbenigedd mewn agweddau ar ymarfer diogelu ac mae'r Grŵp hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni ein rhaglen hyfforddi ranbarthol. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod cymorth parhaus asiantaethau statudol ac anstatudol i'n galluogi i barhau i gyflwyno hyfforddiant diogelu amlasiantaethol rhanbarthol. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, y flwyddyn hon mae partneriaid wedi parhau i fuddsoddi cryn dipyn o egni er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a gynigir gan y Bwrdd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol.

Rydym yn parhau i gomisiynu hyfforddiant ar nifer o bynciau diogelu arbenigol, sy'n cynnwys briffiau a hyfforddiant gan nifer o ddarparwyr ar amrywiaeth o feysydd pwnc, a restrir isod. Mae galw mawr am yr hyfforddiant hwn o hyd. Y flwyddyn hon, comisiynodd pum Awdurdod Lleol (ALl) Gwent hyfforddwyr allanol i ddarparu hyfforddiant diogelu Grŵp C y Bwrdd i holl staff cymwys yr ALl, sy'n gyflawniad sylweddol.

Isod, rhoddir crynodeb o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan Fwrdd Diogelu Gwent yn 2025/2026:

| Darparwyd Gan | Teitl | Nifer y Sesiynau a Ddarparwyd | Cyfanswm y staff a hyfforddwyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp C – Diogelu Oedolion | 3 | 59 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp B – Diogelu Plant ac Oedolion (Ar y Cyd) | 8 | 156 |
| Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Gwent | Grŵp C – Diogelu Plant | 6 | 126 |
| Barnardo’s | Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin Plant yn Rhywiol | 3 | 45 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Barnardo's | Ymddygiad Rhywiol Niweidiol | 1 | 18 |
| Barnardo's | Grŵp C – Diogelu Plant (Comisiynwyd gan ALlau) | 16 | 310 |
| 10 a 23 – Dr Nicholas Marsh | Camfanteisio ar Blant | 1 | 19 |
| 10 a 23 – Dr Nicholas Marsh | Gweithio gyda Bechgyn a Dynion Ifanc | 1 | 16 |
| 10 a 23 – Dr Nicholas Marsh | Oedolyneiddio | 1 | 13 |
| Sefydliad Lucy Faithful | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 1 | 22 |
| Sefydliad Lucy Faithful | Gwydnwch Digidol | 1 | 17 |
| Sefydliad Lucy Faithful | Deall Ymddygiad Rhywiol Niweidiol | 1 | 18 |
| Mind our Future Gwent | Keeping Mindful | 2 | 34 |
| JMG Training and Consultancy | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Diogelu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc | 2 | 14 |
| JMG Training and Consultancy | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Diogelu ar gyfer Oedolion | 2 | 24 |
| Cydgysylltydd y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | Ymwybyddiaeth o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | 5 | 62 |
| Llwybrau Newydd | Grŵp C – Diogelu Plant (Hyfforddiant a gomisiynwyd gan ALlau) | 19 | 377 |
| Llwybrau Newydd | Grŵp C – Diogelu Oedolion (Hyfforddiant a gomisiynwyd gan ALlau) | 25 | 440 |
| Safer Together | Esgeulustod Cymhleth | 2 | 41 |
| Wes Cunliffe | Camfanteisio ar Blant | 2 | 20 |
| Edge Training | Hunanesgeulustod, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Chelcio | 3 | 54 |
| JMG Training and Consultancy/Stori | Y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cam-drin Domestig, Rheolaeth drwy Orfodaeth ac Oedolion sy'n Wynebu Risg | 2 | 32 |
| BFE Consultancy | Dosbarth Meistr ar y Ddyletswydd i Adrodd – Plant | 2 | 34 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Venture Out | Dosbarth Meistr ar y Ddyletswydd i Adrodd – Oedolion | 2 | 37 |
| **CYFANSWM** | | 111 | 1988 |

# 13. GWEITHGAREDDAU ERAILL Y BWRDD

## Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi trefniadau ar gyfer y gorchmynion sifil hyn i'w defnyddio gan awdurdod lleol i alluogi swyddog awdurdodedig i siarad yn breifat â pherson y credir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae rhanbarth Gwent wedi penodi swyddogion awdurdodedig.  Yn 2025/2026, ni weithredwyd unrhyw Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhanbarth Gwent.

## Canllawiau a Chyngor a gafwyd gan Weinidogion Cymru a/neu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac wedi croesawu ein rhyngweithiadau mynych â'r Tîm Diogelu ac Eiriolaeth, y tîm Adolygu Diogelu Unedig Sengl a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill ledled Cymru, er mwyn cynnal y cysylltiad cenedlaethol hwn.

Mae cynrychiolwyr o Fwrdd Diogelu Gwent wedi parhau i chwarae rhan lawn mewn digwyddiadau cenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys y Bwrdd Prosiect ar gyfer yr adolygiad parhaus o Weithdrefnau Diogelu Cymru a thasgluoedd cenedlaethol penodedig.  Mae ein rhanbarth yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd cadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru Gyfan a digwyddiadau a chyfarfodydd rhwydwaith Rheolwyr Busnes Diogelu Cymru Gyfan.  Mae Cynlluniau ac Adroddiadau Blynyddol yn parhau i gael eu llunio gan ddefnyddio fformat y cytunwyd arno â rhanbarthau Byrddau eraill er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru.

Rydym yn parhau i werthfawrogi'r cyfle i gydweithio ag aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB). Drwy gydol 2025/2026, derbyniodd ein Bwrdd ddiweddariadau rheolaidd gan aelod cyswllt penodedig y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sydd wedi parhau i fod yn aelod cyson ac ymroddedig o Fwrdd Diogelu Gwent ers sawl blwyddyn bellach, sydd wedi cryfhau'r undeb.

## Ceisiadau am wybodaeth o dan adran 137

Mae Adran 137(1) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Fwrdd Diogelu ofyn am wybodaeth benodol gan berson neu gorff cymwys, ar yr amod mai diben y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Yn ystod y flwyddyn 2025/2026 ni ddefnyddiodd Bwrdd Diogelu Gwent ei bwerau o dan Adran 137 i gael gwybodaeth.